Ysgol Penrhyn-coch

Yn ystod y mis bu Joanne Harris a Maria Davies yn derbyn triniaeth yn Ysbyty Bron-glais. Da yw eu gweld yn ol gennym. Derbyniodd un o'n cyn-ddisgyblion sef Rupert Morgan driniaeth ar y galon yn Ysbyty'r Heath yng Nghaerdydd. Braf yw deall ei fod yntau ar well-had ac na fydd yn hir iawn cyn dychwelyd i Ysgol Pen-glais lle mae ar ei ail flwyddyn.

Siom oedd clywed am farwolaeth sydyn Mr Wilfred Lewis Pugh yn ei gartref yn Nhrer-ddol. Y mae ein cydymdeimlad a'i briod Mrs J. E. Pugh sydd yma yng ngofal y gegin ac a Caroline yn eu tristwch a'u hiraeth. Yn absenoldeb Mrs Pugh cawsom gymorth parod Mrs Gwenda Morgan o Ysgol Pen-glais.

Aeth nifer o'r plant gyda Mr I. E. Jones i'r Gwersyll ym Mhentywyn. Efallai y cawn ychydig o'u hanes yn y rhifyn nesaf o'r *Tincer*.

Daeth tymor y bêl-droed i ben gyda dwy gem yn erbyn Ysgol Rhydypennau. Colli fu hanes y tim yn erbyn Rhydypennau A, ond yn y gêm olaf un ennill fu eu rhan yn erbyn Rhydypennau B. Cafodd David Ian Thomas a Wayne Smith wahoddiad i ymarfer o dan gyfar-